

Sut i wneud y gorau o raglenni ynni'r llywodraeth

**Ydych chi am gael eich talu
am gynhyrchu trydan neu
wneud eich cartref yn fwy ynni
effeithlon?**

Gall rhai cynlluniau gan y
llywodraeth eich gwobrwyo mewn
sefyllfaoedd penodol.

Bydd y daflen hon yn dweud
wrthych lle i fynd am wybodaeth a
gyda phwy y dylech siarad ynglŷn
â gwneud cais.

Tariff Cyflenwi Trydan

Pwy sy'n gyfrifol amdano?

- Ni sy'n gweinyddu rhannau o'r cynllun, ond cyflenwyr trydan penodol sy'n gyfrifol am geisiadau a thaliadau.

Beth ydyw?

- Taliad rheolaidd gan gyflenwr trydan os byddwch yn cynhyrchu eich trydan eich hun o ffynhonnell adnewyddadwy.
- Gall cartrefi, busnesau a grwpiau cymunedol i gyd wneud cais.
- Mae'r swm yn dibynnu'n bennaf ar ba dechnoleg a ddefnyddir gennych a faint o drydan y gallwch ei gynhyrchu.

Sut galla i fanteisio arno?

- Gwnewch gais i gyflenwr trydan - edrychwch ar ein gwefan am restr o gwmnïau sy'n cymryd rhan.
- Gallwch ddefnyddio eich cyflenwr trydan rheolaidd, ond does dim rhaid i chi.
- Cyn gwneud cais, bydd angen i chi naill ai gael eich cymeradwyo dan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu neu gael eich achredu gan ROO-FIT . Bydd yr hyn sydd ei angen arnoch yn dibynnu ar y dechnoleg rydych yn ei ddefnyddio a swm y trydan a gaiff ei gynhyrchu gennych.

Gall yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni hefyd roi cyngor i chi ar wneud cais. Ewch i **www.energysavingtrust.org.uk/Generating-energy/Getting-money-back/Feed-In-Tariffs-scheme-FITs** neu ffoniwch **0300 123 1234**.

Neu darllenwch ein taflen ffeithiau am ragor o wybodaeth: **www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/feed-tariff-factsheet-about-scheme-and-how-apply**

Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Mae dwy ran i'r cynllun hwn: annomestig a domestig. Mae gan bob un ei wefan a'i broses gwneud cais ei hun, ynghyd â thariffau, meini prawf ymuno a rheolau gwahanol.

Pwy sy'n gyfrifol amdano?

- Ni sy'n rhedeg y ddwy ran o'r cynllun, yn seiliedig ar bolisi a rheoliadau a luniwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

Beth ydyw?

- Taliad am gynhyrchu gwres o ffynhonnell adnewyddadwy a'i ddefnyddio i gynhesu eich cartref neu fusnes.
- Cewch gyfradd tariff am bob uned o ynni rydych yn ei gynhyrchu.
- Caiff taliadau domestig eu taenu dros saith mlynedd.
- Caiff taliadau annomestig eu taenu dros 20 mlynedd.

Sut galla i fanteisio arno?

- Yn gyntaf, darllenwch y deunydd ar ein gwefan.
- Yna, gallwch wneud cais i ni gan ddefnyddio'r manylion sydd ar-lein.

Ar gyfer y cynllun domestig, ewch i
www.ofgem.gov.uk/domestic-rhi

Ar gyfer y cynllun annomestig, ewch i
www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/non-domestic-renewable-heat-incentive-rhi neu ffoniwch
0845 200 2122.

Y Fargen Werdd

Pwy sy'n gyfrifol amdano?

- Nid ni sy'n gweinyddu'r cynllun hwn gan y llywodraeth - Gemserv sy'n gyfrifol amdano

Beth ydyw?

- Ffordd o ariannu gwaith a fydd yn gwneud eich cartref neu fusnes yn fwy ynni effeithlon.
- Bydd rhai gwelliannau, megis insiwleiddio gwell, yn lleihau eich biliau ynni. Mae'n bosibl y bydd y Fargen Werdd yn eich galluogi i dalu am osod y gwelliannau gan ddefnyddio'r arbedion o'r biliau hynny.

Sut galla i fanteisio arno?

- Dechreuwch wth gael Asesiad y Fargen Werdd. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am hwn. Ewch i **gdorb.decc.gov.uk/consumersearch** i ddod o hyd i aseswr.
- Os bydd yr asesiad yn argymhell gwelliannau, gallwch drefnu ar gyfer ariannu a gosod y gwelliannau.

Ewch i **www.energysavingtrust.org.uk/Take-action/Find-a-grant/Green-Deal-and-ECO** neu ffoniwch **0300 123 1234** am ragor o wybodaeth.

Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO)

Pwy sy'n gyfrifol amdano?

- Ni sy'n gweinyddu'r cynllun hwn.

Beth ydyw?

- Gofyniad i gwmnïau ynni osod mesurau ynni-ffeithlon mewn cartrefi.
- Mae'r mesurau yn cynnwys insiwleiddio llofft a waliau a gosod boeleri mwy effeithlon.
- Gall cwmnïau ddewis pa gartrefi i'w trin a faint o arian i'w roi.
- Mae'r arbedion o ran carbon a chostau sy'n deillio o'r mesurau hyn yn rhan o rwymedigaethau'r cwmnïau.

Sut galla i fanteisio arno?

- Siaradwch â chwmni ynni (nid eich cwmni ynni chi o reidrwydd).
- Siaradwch â gosodwr.
- Siaradwch â Gwasanaeth Cyngor yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys manylion cyswllt y cwmnïau ynni a Gwasanaeth Cyngor yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, ewch i **www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/energy-companies-obligation-eco/information-domestic-consumers**



Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Pwy sy'n gyfrifol amdano?

- Ni sy'n monitro cwmnïau ynni o dan y cynllun hwn.

Beth ydyw?

- Gostyngiad untro o £140 oddi ar eich bil.
- Gallech fod yn gymwys os rydych yn cael elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn.
- Mae rhai cyflenwyr hefyd yn cynnig y gostyngiad i grwpiau eraill, megis pobl ag anableddau neu blant bach. Mae'r manylion yn amrywio, felly cysylltwch â'ch cyflenwr trydan i weld y manylion.
- Nid yw pob cyflenwr yn cynnig yr ad-daliad, er bod yn rhaid i'r cwmnïau mwyaf ei gynnig.

Sut galla i fanteisio arno?

- I weld a ydych yn gymwys, ffoniwch Wasanaeth Cyngor yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar 0300 123 1234.
- Os rydych yn cael pensiwn, gallech gael eich talu yn awtomatig. Fel arall bydd eich cyflenwr yn gofyn i chi wneud cais, ac yn gosod terfyn amser ar gyfer hyn

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme/overview** neu ffoniwch linell gymorth Gwasanaeth Cyngor yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar **0300 123 1234**.